Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cod Ymddygiad:** Staff Comisiwn y Senedd

Mawrth 2024



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cod Ymddygiad:** Staff Comisiwn y Senedd

Mawrth 2024

senedd.cymru

# Rhagair

**Rhagair ... 6**

Gwybodaeth am y Cod Ymddygiad ... 8

Atebolrwydd ... 8

Egwyddorion ... 8

Rheolau ... 9

Torri rheolau ymddygiad ... 10

Rhagor o wybodaeth ... 10

**Adran 1: Priodoldeb ... 11**

Cael eich arestio neu eich cael yn euog o gyhuddiadau troseddol ... 11

Gweithgaredd anghyfreithlon ... 11

Methdaliad ac ansolfedd ... 11

Derbyn arian, rhoddion, gwobrwyon a lletygarwch ... 11

Derbyn ffioedd ... 12

Dylanwad gwleidyddol ... 12

Contractau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau ... 12

Urddas a pharch ... 13

**Adran 2: Cyfrinachedd a gwybodaeth swyddogol ... 15**

Rheolau cyffredinol ... 15

**Adran 3: Galwedigaethau a phenodiadau allanol ... 17**

Galwedigaethau allanol ... 17

Penodiadau i fyrddau cyhoeddus ... 17

Derbyn penodiadau allanol ar ôl gadael cyflogaeth y Comisiwn ... 17

**Adran 4: Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol............ 19**

Didueddrwydd ........ 19

Y rheolau cyffredinol ynghylch gweithgarwch gwleidyddol ........ 19

Cyfyngiadau ........ 19

**Adran 5: Rheolau eraill ........ 22**

# Rhagair

Mae'r Cod hwn yn disgrifio'r safonau ymddygiad sy'n ofynnol gan holl gyflogeion Comisiwn y Senedd ("y Comisiwn").

Fel gweithiwr yn y Comisiwn, mae’n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau mewn ffordd onest a diduedd bob amser, a disgwylir i chi ymddwyn mewn ffordd na fydd yn dwyn anfri ar y sefydliad.

Wrth gydymffurfio â'r Cod hwn, byddwch yn sicrhau eich bod yn cadw at y safonau uniondeb cymeriad, ymddygiad a sicrhau lles y cyhoedd a ddisgwylir gan bawb ohonom sy'n cefnogi Comisiwn y Senedd wrth gyflawni ein gwaith.

Mae'r Cod yn gosod disgwyliadau'r Comisiwn ohonoch chi fel cyflogai'r Comisiwn a dylech ddarllen y Cod i sicrhau eich bod yn parhau i fod yn gyfarwydd â'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gennych chi.

Yn ogystal â sicrhau eich bod yn cadw at y safonau ymddygiad priodol a ddisgwylir gennych yn eich gwaith bob dydd, rhaid i chi hefyd beidio â rhoi eich hun mewn sefyllfa lle gallai eraill fod ag achos rhesymol dros gwestiynu'ch ymddygiad.


Os byddwch yn ansicr ar unrhyw bryd o'r hyn a ddisgwylir gennych o ran ymddygiad, rhaid i chi ofyn i'ch rheolwr llinell am gyngor.



Os bydd gennych achos dros gredu bod rhywun wedi torri'r Cod hwn, neu fod posibilrwydd y caiff ei dorri, mae'n ddyletswydd arnoch i roi gwybod i'r rheolwyr.

Os ydych chi'n credu bod gofyn i chi weithredu mewn ffordd sy'n gwrthdaro â'r Cod hwn, dylech siarad â'ch rheolwr llinell neu'r adran Adnoddau Dynol.

Os ydych yn codi mater ac yn credu na chawsoch ymateb priodol yn eich barn chi, rhowch wybod i mi.



Manon Antoniazzi
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

# Gwybodaeth am y Cod Ymddygiad

**1.** Mae'r Cod hwn yn ffurfio rhan o'ch telerau ac amodau cyflogaeth ac mae'n rhan o'r cytundeb cyfreithiol rhyngoch chi a'r Comisiwn. Mae'n nodi'r safonau ymddygiad a ddisgwylir gennych oherwydd eich bod yn cyflawni swydd sy'n gwasanaethu'r Comisiwn.

## Atebolrwydd

**2.** Y person neu'r corff y dylech ofyn am ganiatâd y person lle y nodir hynny yn y Cod yw:

- Cefnogaeth Tîm i E-1 i ofyn am ganiatâd eu Cyfarwyddwr
- Cyfarwyddwr i ofyn am ganiatâd y Prif Weithredwr a'r Clerc
- Y Prif Weithredwr a'r Clerc i ofyn am ganiatâd gan Gomisiynwyr y Senedd

## Egwyddorion

**3.** Rhaid i chi wasanaethu Senedd Cymru yn unol â'r egwyddorion [1] a nodir isod.

- **Anhunanoldeb** – Rhaid i chi beidio â gwneud penderfyniadau na rhoi triniaeth ffafriol i unrhyw unigolyn neu sefydliad er mwyn hybu'ch buddiannau preifat ac felly'n cyfaddawdu'r ffordd rydych yn cyflawni'ch rôl.
- **Uniondeb** – Ni ddylech rwymo'ch hun yn ariannol neu fel arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai ddylanwadu arnoch wrth i chi gyflawni'ch dyletswyddau swyddogol.
- **Gwrthrychedd –** Rhaid i chi ddarparu gwybodaeth a chyngor, gan gynnwys cyngor i aelodau etholedig a phwyllgorau ar sail tystiolaeth, ac mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r opsiynau a'r ffeithiau'n gywir, gan roi ystyriaeth briodol i gyngor proffesiynol lle bo'n briodol. Rhaid i chi wasanaethu'r Senedd a'r Comisiwn hyd eithaf eich gallu, ni waeth beth yw eich credoau gwleidyddol eich hun. Rhaid i chi ymatal rhag

[1] Lluniwyd yr adroddiad ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus gan Bwyllgor Nolan ym mis Mai 1995, a hynny ar gais y Prif Weinidog. Ymchwiliodd y Pwyllgor i safonau mewn bywyd cyhoeddus ym Mhrydain ac, o ganlyniad, cynhyrchodd saith egwyddor ar gyfer bywyd cyhoeddus. Ychwanegwyd yr egwyddor 'Parch' yn unol â pholisïau ac egwyddorion y Senedd ei hun.

gweithgarwch gwleidyddol ac ymgyrchoedd a allai daflu amheuaeth ar eich gallu i wasanaethu pob aelod etholedig yn gydradd.

- **Atebolrwydd** – Rhaid i chi weithio hyd eithaf eich gallu i helpu i roi penderfyniadau Senedd Cymru a'r Comisiwn ar waith a bod yn barod i fod yn atebol am eich gweithredoedd a bod yn destun gwaith craffu fel sy'n briodol i'ch swydd.
- **Bod yn agored** – Rhaid ichi fod mor agored â phosibl ynghylch eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd, a dylech fod yn barod i roi rhesymau dros eich penderfyniadau.
- **Gonestrwydd** – Ni ddylech ofyn am na derbyn arian, rhoddion, cymwynasau na lletygarwch gan eraill na derbyn dim byd arall y byddai modd barnu ei fod yn peryglu eich uniondeb.
- **Parch** - Ni ddylech ymddwyn mewn modd sy'n lleihau cyfle cyfartal, rhaid ichi barchu urddas pobl eraill a pheidio ag ymddwyn yn wahaniaethol neu mewn modd nas dymunir.
- **Arweiniad** – Dylech hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad a dangos esiampl.

## Rheolau

**4.** Gallwch ddod o hyd i'r rheolau ymddygiad yn yr Adrannau a ganlyn:

(I gael gwybodaeth lawn a manwl am yr adrannau hyn, cyfeiriwch at y Polisïau a Gweithdrefnau cysylltiedig)

Adran 1 - Priodoldeb (ymddygiad priodol)

Adran 2 - Cyfrinachedd a gwybodaeth swyddogol

Adran 3 - Galwedigaethau a phenodiadau allanol

Adran 4 - Cyfranogi mewn gweithgareddau gwleidyddol

Adran 5 - Rheolau eraill

## Torri rheolau ymddygiad

**5.** Os byddwch yn torri unrhyw un o'r rheolau ymddygiad, neu os bydd pobl eraill yn torri'r rheolau hyn oherwydd ymddygiad esgeulus neu fwriadol gennych chi, gallech fod yn destun camau disgyblu fel y'u nodir yn y polisi disgyblu.

## Rhagor o wybodaeth

**6.** Os hoffech gael cyngor pellach am y rheolau ymddygiad, dylech gysylltu â'r adran Adnoddau Dynol - hr@senedd.cymru.

# Adran 1: Priodoldeb

## Cael eich arestio neu eich cael yn euog o gyhuddiadau troseddol

**7.** Rhaid i chi, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, roi gwybod i'ch rheolwr llinell neu'r Tîm Gweithrediadau Adnoddau Dynol, ar bob cam, os byddwch yn dod yn ymwybodol eich bod o dan ymchwiliad troseddol neu os ydych chi'n cael eich arestio, os ydych yn cael eich cyhuddo, os gwrthodir mechnïaeth i chi, os ydych yn gorfod mynd i'r llys fel diffynnydd, os ydych yn cael rhybudd gan yr heddlu neu os ydych yn cael eich dyfarnu'n euog neu'ch dedfrydu am unrhyw drosedd. Nid yw hyn yn cynnwys trosedd draffig oni bai ei bod yn bosibl y cewch eich carcharu neu eich gwahardd rhag gyrru fel cosb amdani ,neu bod digwyddiad yn gysylltiedig â cherbyd swyddogol. Bydd peidio â hysbysu yn cael ei ystyried yn weithred o gamymddwyn difrifol a gall arwain at ddiswyddo diannod (h.y. heb rybudd).

## Gweithgaredd anghyfreithlon

**8.** Mae dyletswydd arnoch i gydymffurfio â'r gyfraith; mae hyn yn cynnwys rhwymedigaethau â chytuniadau a chyfraith ryngwladol a chynnal gweinyddiad cyfiawnder, ac adrodd am unrhyw dystiolaeth o weithgarwch anghyfreithlon a throseddol. Mae Polisi y Comisiwn ynghylch Datgelu Cyhoeddus yn y Gweithle yn darparu canllawiau ar y trefniadau adrodd.

## Methdaliad ac ansolfedd

**9.** Os ydych chi'n fethdalwr neu os gallai llys cyfreithiol ddatgan eich bod yn fethdalwr, rhaid i chi roi gwybod am y ffaith hon cyn gynted ag y bo'n ymarferol i'ch rheolwr llinell neu'r Tîm Gweithrediadau Adnoddau Dynol a'r Prif Weithredwr a'r Clerc. Bydd methiant i ddatgelu trafodion sydd â'r potensial i arwain at fethdaliad yn cael ei ystyried yn weithred o gamymddwyn difrifol a gallai arwain at ddiswyddo diannod.

## Derbyn arian, rhoddion, gwobrwyon a lletygarwch

**10.** Ni ddylech dderbyn rhoddion neu letygarwch na derbyn unrhyw fuddion eraill gan unrhyw un pe gellid ystyried yn rhesymol y byddai hynny'n peryglu'ch uniondeb neu'ch barn bersonol. Gallwch dderbyn mân roddion o natur ddibwys, neu letygarwch cymedrol lle bo hynny'n rhan o'ch dyletswyddau arferol (er enghraifft os darperir lluniaeth gymedrol i chi) a chyn belled nad yw'n digwydd yn rheolaidd. Os yw gwrthod rhodd o'r fath yn debygol o bechu'r rhoddwr, dylech

drafod y ffeithiau ar unwaith gyda'ch rheolwr llinell. Rhaid i chi gymryd cyngor gan eich rheolwr llinell neu'r Tîm Gweithrediadau Adnoddau Dynol cyn derbyn unrhyw arian, rhoddion neu letygarwch.

**11.** Cedwir cofrestr o arian, rhoddion a lletygarwch, ac os cynigir arian, rhodd neu letygarwch i chi (hyd yn oed os na fyddwch yn ei dderbyn), rhaid i chi sicrhau bod y cynnig yn cael ei gofnodi ar y gofrestr (bydd angen i geidwad y gofrestr wybod beth yw natur y rhodd neu'r lletygarwch, p'un a ydych wedi'i dderbyn, pwy a'i cynigiodd, pam y cafodd ei roi a gwerth amcangyfrifedig). Gall eich rheolwr llinell eich hysbysu am y weithdrefn ar gyfer cofrestru arian, rhoddion a lletygarwch o'r fath.

**12.** Os canfyddir eich bod wedi derbyn arian, rhoddion, lletygarwch, budd neu unrhyw ystyriaeth arall mewn unrhyw sefyllfa lle mae'n gwrthdaro â'ch dyletswyddau swyddogol, ac nad ydych wedi'i gofrestru, bydd hyn yn cael ei ystyried yn weithred o gamymddwyn difrifol a gallai arwain at ddiswyddo diannod.

## Derbyn ffioedd

**13.** Rhaid talu unrhyw ffioedd a dderbynnir o ffynhonnell allanol sy'n ymwneud â'ch dyletswyddau fel cyflogai'r Comisiwn (fel ffioedd am siarad mewn cynhadledd) i'r Comisiwn, os yw'r taliad am wasanaethau sy'n rhan o'ch dyletswydd swyddogol. Mewn amgylchiadau lle mae'r gwaith cyfan, neu ran ohono, yn cynnwys amser preifat yn ogystal ag amser swyddogol neu os yw'r amser swyddogol wedi darfod, gallwch wneud cais i'ch rheolwr llinell am ganiatâd i gadw'r holl ffi neu ran ohoni fel sy'n briodol. Yn unol ag adran 3 o'r Cod hwn, rhaid i chi ofyn am ganiatâd cyn derbyn unrhyw gyflogaeth allanol.

## Dylanwad gwleidyddol

**14.** Ni ddylech ddefnyddio'ch swydd a'ch agosrwydd at aelodau etholedig a chyrff cyhoeddus allanol i gael cefnogaeth neu ddylanwad er eich budd eich hun chi, neu unrhyw fudd i berson arall. Nid yw hyn yn golygu na chewch gysylltu â'ch Aelod(au) o'r Senedd drwy'r sianeli arferol, sef gohebiaeth a chymorthfeydd fel etholwr.

## Contractau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau

**15.** Oni bai eich bod wedi cael caniatâd, rhaid i chi beidio â dyfarnu contractau y Comisiwn, neu gymryd rhan mewn unrhyw ffordd berthnasol wrth eu dyfarnu, i'r canlynol:

- unrhyw un o gyflogeion y Comisiwn,
- unrhyw fusnes y mae un o gyflogeion y Comisiwn yn gweithio iddo neu'n cael ei dalu ganddo,
- teulu agos, ffrindiau personol agos neu gysylltiadau busnes unrhyw un o gyflogeion y Comisiwn, neu
- unrhyw fusnes y mae teulu agos, ffrindiau personol agos neu gymdeithion busnes yn gweithio iddo neu'n cael eu talu ganddynt.

**16.** Os rhoddir caniatâd, rhaid i chi barhau i gofrestru'r penderfyniad a rhoi gwybod i Bennaeth Caffael y Comisiwn am y cefndir cyn bwrw ymlaen.

## Urddas a pharch

**17.** Ni ddylech ymddwyn mewn modd sy'n lleihau cyfle cyfartal, rhaid i chi barchu urddas pobl eraill a pheidio ag ymddwyn yn wahaniaethol neu mewn modd nas dymunir, nac aflonyddu, bwlio na gwahaniaethu.

**18.** Yn y Cod hwn:

a. ystyr “bwlio” yw ymddygiad tramgwyddus, bygythiol, maleisus neu sarhaus; neu gam-drin neu gamddefnyddio pŵer mewn ffordd sy'n bwriadu tanseilio, bychanu, beirniadu'n annheg neu anafu rhywun, naill ai drwy ymddygiad parhaus neu un weithred annerbyniol iawn;

b. Mae “gwahaniaethu” yn cynnwys ymddygiad sy'n gwahaniaethu yn erbyn unrhyw berson ar sail oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, barn wleidyddol a dewis iaith;

c. Ystyr “aflonyddu” yw ymddygiad nas dymunir sydd â’r diben neu effaith o amharchu urddas unigolyn neu greu amgylchedd bygythiol, gelyniaethus, israddol, bychanol neu annymunol ar gyfer unigolyn, ac mae’n cynnwys aflonyddu rhywiol; ac

d. Ystyr “ymddygiad digroeso” yw ymddygiad nad yw’n cael ei annog na’i gyfnewid gan y sawl sy’n destun i’r ymddygiad, p’un a yw’r ymddygiad wedi’i fwriadu i beri tramgwydd ai peidio, a ph’un a yw’n digwydd dro ar ôl tro neu unwaith yn unig.

**19.** Wrth ddehongli a chymhwyso'r diffiniadau o "fwlio", aflonyddu", "gwahaniaethu" ac "ymddygiad digroeso":

a. Mae bwriad y person y gwneir cwyn amdano yn amherthnasol.

b. Safon y dystiolaeth yw a fyddai person rhesymol a diduedd o'r farn y byddai'r ymddygiad yn dod o fewn un o'r diffiniadau, gan roi sylw i gyd-destun yr ymddygiad y gwneir cwyn amdano.

c. Rhaid parchu hawliau perthnasol y person y gwneir cwyn amdano a'r person sy'n ddarostyngedig i'r ymddygiad o dan sylw o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

# Adran 2: Cyfrinachedd a gwybodaeth swyddogol

**20.** Mae camddefnyddio gwybodaeth gyfrinachol yn torri'r ddyletswydd gyfrinachedd sy'n ddyledus i Senedd Cymru ac i'r Comisiwn, a chaiff ei ystyried yn achos o gamymddwyn difrifol a allai arwain at ddiswyddo diannod.

**21.** Er y dylid trin yr hyn y dewch i wybod amdano yn rhinwedd eich swydd yn wybodaeth gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol y gallai'r wybodaeth y byddwch yn ei phrosesu gael ei chyhoeddi i unigolion neu i'r cyhoedd yn fwy cyffredinol yn unol â deddfwriaeth a pholisïau'r Comisiwn ar fynediad at wybodaeth. Ni ddylech ddefnyddio gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd pan fyddwch yn gyflogedig nac ar ôl hynny. Gofynnir ichi drin gwybodaeth bersonol (mae hyn yn cwmpasu pob math o wybodaeth am unigolion, gan gynnwys dogfennau papur, cronfeydd data a negeseuon e-bost) yn gyfrinachol ac yn unol â'r polisi diogelu data a weithredir gan y Comisiwn ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

## Rheolau cyffredinol

**22.** Ni chewch ddatgelu unrhyw wybodaeth swyddogol heb ganiatâd yn unol â'r hyn a nodwyd ym mharagraff 2 uchod.

**23.** Ni ddylid defnyddio gwybodaeth, yn gyfrinachol neu fel arall, y bu gennych fynediad ati, i rwystro polisïau neu benderfyniadau Senedd Cymru a'r Comisiwn.

**24.** Rhaid i chi ofyn am ganiatâd yn unol â pharagraff 2 uchod ar gyfer unrhyw weithgareddau sy'n cynnwys y canlynol, nad ydynt yn cael eu cyflawni fel rhan o'ch dyletswydd swyddogol:

- cymryd rhan mewn unrhyw ddarllediad cyfryngau (sain, gweledol neu fel arall) ynglŷn â busnes y Senedd /y Comisiwn neu a allai gwestiynu eich dyletswydd o ddidueddrwydd gwleidyddol;
- cyhoeddi, darlledu neu ledaenu unrhyw atgofion personol sy'n ymwneud â'ch cyflogaeth yng Nghomisiwn y Senedd;
- lledaenu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â Senedd Cymru/y Comisiwn i unrhyw newyddiadurwr ar gyfer ei chyhoeddi.
- unrhyw drefniadau ynghylch cyhoeddi erthyglau neu ddeunyddiau a luniwyd gennych chi fel rhan o'ch dyletswyddau swyddogol, y bydd y Comisiwn yn berchen ar eu hawlfraint yn unol â Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988.

**25.** Nid yw'r cyfyngiadau uchod yn atal cynrychiolwyr cenedlaethol, sefydliadol neu gangen o undeb llafur gydnabyddedig rhag cyflawni eu dyletswyddau fel cynrychiolwyr. Gall cynrychiolwyr etholedig yr undebau lafur wneud sylwadau ar bolisi Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU neu Senedd Cymru wrth gynrychioli buddiannau dilys eu haelodau, ond wrth wneud hynny rhaid iddynt ei gwneud yn glir eu bod yn mynegi barn fel cynrychiolwyr yr undeb ac nid fel cyflogeion y Comisiwn.

# Adran 3: Galwedigaethau a phenodiadau allanol

## Galwedigaethau allanol

**26.** Rhaid i chi ofyn am ganiatâd yn unol â pharagraff 2 uchod cyn derbyn unrhyw gyflogaeth allanol.

**27.** Ni ddylech:

- ar unrhyw adeg, ymgymryd ag unrhyw weithgaredd a fyddai'n gwrthdaro â'ch dyletswyddau fel cyflogai'r Comisiwn, oni bai eich bod wedi cael caniatâd yn unol â pharagraff 2 uchod i wneud hynny;
- ymgymryd ag unrhyw waith neu weithgaredd arall allai wrthdaro mewn unrhyw fodd â buddiannau'r Senedd neu'r Comisiwn, nac a fyddai'n anghyson â'ch rôl fel cyflogai'r Comisiwn;
- ymgymryd ag unrhyw weithgaredd allanol y cewch eich talu amdano sy'n manteisio ar brofiad neu wybodaeth a gawsoch drwy gyflawni dyletswyddau swyddogol, heb gael caniatâd yn unol â pharagraff 2 uchod;

**28.** Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch priodoldeb unrhyw weithgaredd, dylech ofyn am arweiniad pellach gan y Tîm Gweithrediadau Adnoddau Dynol.

## Penodiadau i fyrddau cyhoeddus

**29.** Os ydych yn dymuno gwneud cais am benodiad i unrhyw fwrdd neu gorff cyhoeddus a ariennir yn gyfan gwbl neu'n rhannol o arian cyhoeddus, neu dderbyn penodiad o'r fath, rhaid i chi ofyn am ganiatâd yn unol â pharagraff 2 uchod.

## Derbyn penodiadau allanol ar ôl gadael cyflogaeth y Comisiwn

**30.** Ystyrir ei bod yn fuddiol i bawb bod modd trosglwyddo sgiliau a phrofiad y rheini sy'n gweithio i'r Comisiwn i'r gymuned ehangach ac, o ganlyniad, caiff y rhan fwyaf o geisiadau a gyflwynir o dan y rheolau hyn eu cymeradwyo heb amod.

**31.** Nod y rheolau hyn yw cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y bobl sy'n gweithio i'r Comisiwn ac yn benodol:

- i osgoi unrhyw amheuaeth y gallai cyngor a phenderfyniadau cyflogeion gael eu dylanwadu gan y gobaith o gyflogaeth yn y dyfodol gyda sefydliad penodol;
- osgoi'r risg y gallai sefydliad penodol ennill mantais amhriodol dros gystadleuwyr drwy gyflogi rhywun sydd, yn ystod ei gyflogaeth gyda'r Comisiwn, wedi cael mynediad at wybodaeth dechnegol neu wybodaeth arall y gallai'r cystadleuwyr hynny ei ystyried yn ddilys fel eu gwybodaeth hwy, neu at wybodaeth yn ymwneud â datblygiadau arfaethedig ym mholisi'r Comisiwn a allai effeithio ar y sefydliad neu'i gystadleuwyr.

**32.** Mae'n ofynnol i chi gael caniatâd yn unol â pharagraff 2 uchod cyn derbyn unrhyw gynnig o gyflogaeth sy'n ymwneud â'ch cyflogaeth gan y Comisiwn o fewn dwy flynedd ar ôl ymddiswyddo, ymddeol neu fel arall, gan gynnwys:

- gan gwmni neu sefydliad arall sydd â chysylltiad â'ch dyletswyddau swyddogol;
- gan gwmni neu berson neu sefydliad arall sydd mewn perthynas gontractol neu berthynas arbennig arall â Senedd Cymru a/neu'r Comisiwn;
- gan gyrff eraill, gan gynnwys llywodraethau tramor; a
- gwaith ymgynghori, boed yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig a boed yn llawn amser, yn rhan amser neu am ffi.

**33.** Ni chewch dderbyn unrhyw benodiad fel staff cymorth ar gyfer Aelod o'r Senedd neu Grŵp gwleidyddol yn y Senedd o fewn dwy flynedd ar ôl ymddiswyddo neu ymddeol neu adael cyflogaeth y Comisiwn fel arall, oni bai eich bod yn cael caniatâd yn unol â pharagraff 2 uchod. Yn benodol, ystyrir i ba raddau yr ydych wedi cynghori'r Aelodau ar faterion polisi a gweithdrefn neu wedi bod yn rhan o gyflwyno penderfyniadau a pholisïau'r Senedd i'r cyhoedd.

# Adran 4: Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol

## Didueddrwydd

**34.** Er mwyn i chi wasanaethu pob aelod etholedig yn gydradd, mae'n hanfodol bod y Senedd a'r cyhoedd yn hyderus nad yw eich barn bersonol yn effeithio ar y modd rydych yn cyflawni eich dyletswyddau swyddogol. Amcan y rheolau a nodir isod, yw caniatáu cymaint ag sy'n bosibl o ryddid i chi gymryd rhan mewn materion cyhoeddus heb dorri'r egwyddor sylfaenol hon. (Dylid nodi bod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn anghymhwyso cyflogeion y Comisiwn rhag bod yn Aelod o'r Senedd).

## Y rheolau cyffredinol ynghylch gweithgarwch gwleidyddol

**35.** Mae'r rheolau canlynol yn berthnasol i chi ar bob adeg:-

- rhaid i chi beidio â chymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch gwleidyddol pan fyddwch ar ddyletswydd, neu yn gwisgo gwisg y Comisiwn neu pan fyddwch yn adeiladau'r Comisiwn;
- ni chewch fynd i gynadleddau allanol neu ddigwyddiadau a drefnir gan sefydliad sy'n perthyn i blaid wleidyddol neu'n cael nawdd ganddo, yn eich rôl swyddogol;
- mae'n rhaid cymryd gofal i osgoi unrhyw anfri i enw da y Comisiwn neu i'r Senedd drwy ddwyn eich hun yn amlwg i sylw'r cyhoedd mewn dadl wleidyddol plaid fel cyflogai Comisiwn y Senedd;
- mae'n rhaid i chi sicrhau y mynegir eich barn wleidyddol bersonol mewn modd cymedrol fel nad yw'n rhwystro gwasanaeth teyrngar ac effeithiol i aelodau o blaid wleidyddol arall.

## Cyfyngiadau

**36.** Ni chaiff cyflogeion ar raddau E-2 /Gradd 7 ac uwch gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau gwleidyddol. Ni chaniateir i gyflogeion eraill gymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol yn ymwneud â'r Senedd, er y gallwch ofyn am ganiatâd yn unol ag Adran 2 uchod i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwleidyddol eraill. Wrth ystyried ceisiadau o'r fath, bydd sylw mawr yn cael ei roi i natur eich dyletswyddau swyddogol. Yn benodol, ystyrir i ba raddau yr ydych wedi

cynghori'r Aelodau ar faterion polisi a gweithdrefn neu wedi bod yn rhan o gyflwyno penderfyniadau a pholisïau'r Senedd i'r cyhoedd.

**37.** At ddibenion y rheolau hyn, caiff "gweithgareddau gwleidyddol" eu diffinio fel a ganlyn:

**38.** Ar lefel genedlaethol yng Nghymru

- cyhoeddi eich bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o Senedd Cymru;
- bod â swydd (ac eithrio aelodaeth) mewn sefydliad plaid wleidyddol;
- canfasio ar ran ymgeisydd sydd am fod yn Aelod o Senedd Cymru;
- cyfrannu at erthyglau i'w cyhoeddi, llyfrau neu gyflwyno llythyrau i'r wasg yn ymwneud â thrafodaethau ar faterion gwleidyddol dadleuol mewn rhinwedd bersonol;
- mynegi barn bersonol yn gyhoeddus ar faterion gwleidyddol cenedlaethol dadleuol.

**39.** Yn genedlaethol yng ngweddill y DU

- cyhoeddi eich bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o Dŷ'r Cyffredin, o Senedd yr Alban neu o Gynulliad Gogledd Iwerddon;
- cyhoeddi eich bod yn ymgeisydd ar gyfer rôl Comisiynydd Heddlu a Throseddu;
- bod â swydd (ac eithrio aelodaeth) mewn sefydliad plaid wleidyddol;
- canfasio ar ran ymgeisydd i fod yn Aelod o Dŷ'r Cyffredin, o Senedd yr Alban neu o Gynulliad Gogledd Iwerddon neu'n ymgeisydd ar gyfer rôl Comisiynydd Heddlu a Throseddu;
- cyfrannu at erthyglau i'w cyhoeddi, llyfrau neu gyflwyno llythyrau i'r wasg yn ymwneud â thrafodaethau ar faterion gwleidyddol dadleuol mewn rhinwedd bersonol;
- mynegi barn bersonol yn gyhoeddus ar faterion gwleidyddol cenedlaethol dadleuol.

**40.** Ar lefel Ewropeaidd

cyhoeddi eich bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o Senedd Ewrop;

canfasio ar ran ymgeisydd sydd am fod yn Aelod o Senedd Ewrop;

**41.** Yn lleol

- cyhoeddi eich bod yn ymgeisydd i fod yn faer a etholir yn uniongyrchol
- cyhoeddi eich bod yn ymgeisydd i brif gyngor awdurdod lleol (h.y. cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ond heb gynnwys cynghorau tref a chymuned)
- bod â swydd (ac eithrio aelodaeth) mewn sefydliad plaid wleidyddol;
- canfasio ar ran ymgeiswyr i'w hethol i awdurdodau lleol neu sefydliad gwleidyddol lleol;
- cyfrannu at erthyglau i'w cyhoeddi, llyfrau neu gyflwyno llythyrau i'r wasg yn ymwneud â thrafodaethau ar faterion gwleidyddol lleol dadleuol mewn rhinwedd bersonol;
- mynegi barn bersonol yn gyhoeddus ar faterion gwleidyddol lleol dadleuol.

# Adran 5: Rheolau eraill

**42.** Ni ddylech ddwyn anfri ar y Comisiwn drwy wneud sylwadau difrïol, niweidiol neu annymunol yn gyhoeddus ynghylch unigolion (boed yn gyflogeion, yn Aelodau neu eraill) neu sefydliadau, neu gymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau sy'n gwrthdaro â buddiannau Senedd Cymru.

**43.** Gall camddefnyddio unrhyw gyfryngau cymdeithasol, o dan rai amgylchiadau, gael ei ystyried fel dwyn anfri ar y Comisiwn. Gallai hefyd fod yn dramgwydd cyfreithiol neu fel arall beri atebolrwydd cyfreithiol yn eich erbyn chi neu'r Comisiwn.

**44.** Caiff dwyn anfri ar y Comisiwn ei ystyried yn weithred o gamymddwyn difrifol a gall arwain at ddiswyddo diannod.

**45.** Rhaid i Gomisiwn y Senedd sicrhau nad yw staff y Comisiwn sydd yn fethdalwyr neu'n ansolfent yn cael eu cyflogi i gyflawni dyletswyddau a allai ganiatáu i arian cyhoeddus gael ei gamddefnyddio. Os cewch eich datgan yn fethdalwr neu'n ansolfent, rhaid i chi roi gwybod i'ch rheolwr llinell.

**46.** Mae betio a hapchwarae mewn mangreoedd swyddogol wedi'i wahardd.

Fel cyflogai i gorff sy’n cefnogi ac yn darparu gwasanaethau i sefydliad a etholir yn ddemocrataidd, disgwylir i chi ymddwyn mewn ffordd na fydd yn achosi niwed i enw da’r Senedd na’r Comisiwn, nac yn dwyn anfri ar y Senedd na’r Comisiwn.

**47.** Ni chaiff cyflogeion gynnal na chynrychioli busnes benthyca arian neu roi benthyg arian i weithiwr arall ar log. Dylai gweithwyr osgoi'r arfer o fenthyca arian ymysg ei gilydd. Mae'r weithred o fenthyg arian oddi wrth swyddog is yn cael ei hystyried yn dramgwydd difrifol, ac eithrio achosion lle mae'r swm sy'n cael ei fenthyg yn un bach ar gyfer prynu diod, er enghraifft, ac yn cael ei dalu yn ôl yn syth.

**48.** Gwaherddir yn llwyr fenthyca (neu geisio benthyca) arian gan aelod o’r cyhoedd yn ystod eich dyletswyddau swyddogol a gallai arwain at gamau disgyblu.